**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Chwefror 8fed 2021 am 7.30yh trwy feddalwedd zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Nesta Roberts, Wenda Williams,Dafydd Williams, Iain Roberts, Emlyn Jones, Mari Evans a Gwenllian Hughes-Jones
**Yn y gadair:** Cyng Geraint Jones
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr RG Williams, Gareth Roberts, Wil Evans ac RJ Williams
Cydymdeimlwyd â'r Cyng Gareth Roberts sydd wedi collio ei chwaer yn ddiweddar.
**2)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg o Ionawr 2021:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
**3) Materion yn codi o'r cofnodion**
i)Cae Chwarae: Adroddodd y Cyng Gwenllian Hughes-Jones fod y ffens bellach wedi ei chwblhau a giat wedi ei gosod gyda chlo arni. Mae byrddau addysgiadol wedi eu derbyn â'r bil o £500.40 wedi ei dalu o gyfri y Cyngor fel a gytunwyd trwy gylchredeg ebost, o ganlyniad bydd yn bosibl hawlio y TAW yn ôl. Bydd y pwyllgor cae chwarae yn ad-dalu y taliadau net trwy roi cyfraniad i'r Cyngor Cymuned (mae ffurflen hawlio y grant AHNE wedi ei chyflwyno gan y Pwyllgor Cae Chwarae a bydd yr arian yn cael ei dalu i gyfri y Pwyllgor). Bydd y clerc yn cysylltu gyda John Gwynfor Jones er mwyn gofyn iddo symud ffensys diogelwch sydd yn y cae.
Cytunwyd y dylid cymeryd y camau angenrheidiol er mwyn gosod camerau cylch cyfyng yn y cae - mae''r clerc yn mynd i holi os oes angen trwydded.
ii)Materion yr Eglwys Newydd: Nodwyd bod yr eglwys yn parhau i fod ar gau ac nad oes neb yn mynd i fewn i'r adeilad.
Cytunodd y Cyng Wenda Williams i gymeryd yr awenau ynghylch cael grantiau i atgyweirio yr eglwys, mae am wneud ymholiadau.
Eglurodd y clerc ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda Unllais Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn gyfreithlon i drosglwyddo arian Cyfeillion yr Eglwys i gyfrif banc yn enw y Cyngor er mwyn gofalu amdanynt - mae yn aros am ymateb.
Trafodwyd cyflenwad trydan yr eglwys gan fod taliadau sylweddol wedi eu gwneud trwy ddebyd uniongyrchol yn seiliedig ar amcangyfrifon, derbyniwyd cynnig gan y Cynghorwyr Nesta Roberts a Gwenllian Hughes-Jones sydd yn fodlon edrych i mewn i brisiau cyflenwyr trydan eraill.
iii)Ni dderbynwyd ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd mis Ionawr hyd yma. Mae swyddog wedi bod mewn cysylltiad â'r clerc ynghylch y ffordd heibio eglwys Bodferin a'r troeadau ger Geufron, Aberdaron ond nid oes adroddiad pellach wedi ei dderbyn.
iv)Canolfan Crud y Werin: Mae pennaeth yr ysgol wedi cysylltu yn egluro fod y llywodraethwyr yn gwneud ymholiadau gyda y swyddog addysg ynghylch y ganolfan.
v)Wifi cymunedol Aberdaron: Derbyniwyd copi o anfoneb ar gyfer wifi cymunedol Aberdaron gan y Grwp Twristiaeth - mae'r wifi yn costio £1,643.86 am gyfnod o flwddyn. Mae cais gan y Grwp Twristiaeth am gyfraniad gan y Cyngor Cymuned ac fe fyddai y Cyngor yn cael ei enwi gyda y Grwp Twristiaeth fel cyd noddwr y gwasanaeth.
Cytunwyd i gyfranu tuag at y gwasanaeth, a gan fod y Grwp Twristiaeth yn arferol yn rhoi £1,000 tuag at gynnal y toiledau cyhoeddus, cytunwyd i beidio a gofyn am y cyfraniad yma ac fe fydd y £1,000 yn cyfri fel cyfraniad y Cyngor tuag at y wifi. Hefyd cytunwyd i wneud ymholiadau ynglyn a chyfeirio yr anfoneb at y Cyngor Cymuned er mwyn gwneud y taliad, fe fyddai hyn yn galluogi ad-hawlio y TAW.
vi)Giat y traeth: Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Forwrol yn cytuno i roi arwydd ar y giat i hysbysu pobl o rif ffôn i'w alw mewn achos o argyfwng er mwyn cael goriad i'r giat.
**4) Gohebiaethau**
i)Derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu amserlen ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21 bydd yn ofynnol i'r Cyngor lunio ac ardystio cyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2021 a chyhoeddi cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio erbyn 30 Tachwedd 2021.

**5) <u>Cynllunio</u>**
C20/0016/30TC - Defnydd carafan statig fel uned gwyliau hynan gynhaliol - Ty'n Cae, Aberdaron - dim gwrthwynebiad
C21/0027/30/DT - Dymchwel adeiladau allanol presennol a chodi estyniad deulawr - Bryn Sander, Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd - dim gwrthwynebiad

**6)Ariannol**

**Taliadau**

Iwan Hughes: £177.21
HMRC (Paye): £44.40
Costau clercio: £14.39 (zoom am fis)
Outdoor classroom: £500.40 (arwyddion cae chwarae)
Scottish Power: £486.28 (d/d yn seiliedig ar amcangyfrif)
Owen Vaughan Jones; £60 (biniau i'r lôn)
Taliadau sydd heb eu talu o fisoedd blaenorol (er gwybodaeth)
Iwan Hughes: £709.44 (cyflog 4 mis)
Costau clercio: £38.71
Iwan Hughes: £40 (cofrestru 8 claddedigaeth)

**Derbyniadau**

Scottish Power: £432.50 (ad daliad yn dilyn derbyn darlleniad)

**7) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Gareth Roberts trwy ebost ynglyn a sefyllfa ffordd Porth Meudwy - mae y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y gwaith bellach yn ei le a chontractwr wedi ei benodi ar gyfer y gwaith. Ni all y gwaith ddechrau tan mis Ebrill ond fe fydd y tir yn cael ei fonitro yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cyn dechrau y gwaith. Mae defnyddwyr y ffordd yn fodlon gyda hynny.
ii)Pont Bodernabwy: Adroddwyd fod cyflwr y bont yn dirwyio a bod craciau wedi ymddangos ynddi.
iii)Mae y tyllau ger Tai'r Efail wedi eu trwsio ond mae tyllau newydd yno erbyn hyn. Hefyd mae twll yn y ffordd rhwng Tŷ Rhos a Penrhos, Rhoshirwaun ynghyd a dwr yn llifo dros y ffordd ar y safle pan yn bwrw yn drwm.
iv)Mae carreg ar ochr y ffordd ger Tŷ Tan Fron, Anelog, mae'r Adran Priffyrdd yn gwybod amdani. Penderfynwyd gofyn pryd maent yn bwriadu ei symud.
v)Tynnwyd sylw nad oes ymateb wedi dod i gwyn a anfonwyd at Gyngor Gwynedd mis Ionawr ynglyn a greanu y ffordd rhwng Y Rhiw a Mynytho, mae'r ffordd yn hynod beryglus ar dywyddd rhewllyd.
vi)Nid yw y cilbost sydd ar y ddaear ger mynedfa Gors, Anelog byth wedi ei ail-osod, penderfynwyd gofyn iddo gael ei ail osod cyn gynted a phosibl

**Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal nos Lun, 8fed o Fawrth am 7.30yh**